# Atebion i Gwestiynau Ysgrifenedig y Cynulliad i'w hateb ar 25 Ionawr 2010

[R] yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.
[W] yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

## Cynnwys


2 Cwestiynau i'r Prif Weinidog

2 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Fusnes a'r Gyllideb

7 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes

8 Cwestiynau i'r Dirprwy Brif Weinidog a'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth

11 Cwestiynau i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai

14 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

14 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Dreftadaeth

15 Cwestiynau i Gynrychiolydd Comisiwn y Cynulliad

## *Gofyn i Brif Weinidog Cymru*

**Nick Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Pa asesiad y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi'i wneud o'i lefelau staffio yn y dyfodol. (WAQ55448)

***Rhoddwyd ateb ar 15 Mawrth 2010***

Yn WAQ55448 yn ddiweddar, gofynnoch i'r Prif Weinidog ddarparu manylion am yr asesiad a wnaed o lefelau staffio Llywodraeth Cynulliad Cymru yn y dyfodol. Gofynnodd y Prif Weinidog imi eich ateb.

Bydd lefelau staffio yn cael eu pennu gan amryw o ffactorau. Mae'r rhain yn amlwg yn cynnwys yr adnoddau sydd wedi'u dyrannu yng nghyd-destun y blaenoriaethau y cytunwyd arnynt a chyllidebau'r dyfodol, sy'n dal heb eu pennu eto. Rydym yn amlwg yn disgwyl i gyllidebau fod dipyn yn llai, ac er nad oes gennym dargedau penodol ar gyfer y gweithlu, rydym yn parhau'n ymroddedig i leihau costau gweinyddol yn gyffredinol er mwyn llwyddo o fewn terfynau cyllidebau'r dyfodol.

**Andrew RT Davies (Canol De Cymru):** Pryd wnaeth y Grŵp Argyfyngau Sifil ddechrau cynnal y cyfarfodydd dyddiol a phryd wnaeth y grŵp gyfarfod gyntaf i drafod y tywydd garw diweddar. (WAQ55459)

***Rhoddwyd ateb ar 09 Chwefror 2010***

Cyfarfu'r Grŵp Argyfyngau Sifil am y tro cyntaf ar 11eg Ionawr cyn y tywydd garw a ragwelwyd ar gyfer yr wythnos honno ledled Cymru a pharhaodd i gynnal cyfarfodydd dyddiol tan 18fed Ionawr.

**Andrew RT Davies (Canol De Cymru):** Pryd wnaeth y Gweinidogion gyfarfod gyntaf i drafod ymateb Llywodraeth Cynulliad Cymru i'r amodau tywydd gaeafol eithriadol ym mis Ionawr 2010. (WAQ55445)

***Rhoddwyd ateb ar 09 Chwefror 2010***

Cynhaliwyd trafodaethau gweinidogol yn ystod yr wythnos yn dechrau 4 Ionawr, ac yn dilyn hynny cyfarfu'r Pwyllgor Paratoadau Sifil yn ffurfiol am y tro cyntaf ar 8 Ionawr. Trafododd y Cabinet y sefyllfa mewn cyfarfod ar 11 Ionawr ac mae Gweinidogion yn parhau i gael y wybodaeth ddiweddaraf am y sefyllfa.

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Fusnes a'r Gyllideb*

**Nick Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Faint o arian y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi'i wario ar ddodrefn ym mhob un o'r pum mlynedd diwethaf. (WAQ55447)

***Rhoddwyd ateb ar 16 Mawrth 2010***

Diolch am eich cwestiwn yn gofyn am wybodaeth am wariant Llywodraeth Cynulliad Cymru ar yr eitemau uchod yn ystod y pum mlynedd diwethaf.

Pan gyflwynwyd eich cwestiwn i'w ateb yn y Sesiwn Lawn, ni allwn ymateb oherwydd yr amser mae'n ei gymryd i ddwyn y wybodaeth ynghyd. Erbyn hyn, gallaf roi'r wybodaeth i chi ar gyfer 2008-09 yn unig.

| Adran | Cyfreithiol (£) | Lletygarwch (£) | Dodrefn (£) |
|---|---|---|---|
| Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol | 1,812,366 | 49 | - |
| Cyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol | 999 | 417 | - |
| Yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai | 138,980 | 239 | - |
| Materion Gwledig | 81,543 | 880 | - |
| Yr Economi a Thrafnidiaeth | 1,132,049 | 210,844 | 4,783 |
| Plant, Addysg a Dysgu Gydol Oes | 4,560 | 8,786 | - |
| Treftadaeth | 323 | 36,684 | - |
| Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad | -4,349 | 1,461 | 78 |
| Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu | 714,735 | 59,726 | 685,636 |
| **Cyfanswm** | **3,881,206** | **319,086** | **690,497** |

Ni allaf roi gwybodaeth am gostau ymgynghori allanol ar hyn o bryd ond byddaf yn rhoi'r wybodaeth hon i chi cyn gynted ag y bydd ar gael.

Mae'r costau uchod yn cwmpasu'r holl wariant adrannol. Ni roddir ffigurau ar gyfer blynyddoedd ariannol cyn 2008-09 gan nad yw'r wybodaeth honno ar gael ar sail gymharol a byddai ei chasglu yn arwain at gostau anghymesur, fel y nodir yn y canllawiau perthnasol ar Gwestiynau'r Cynulliad.

**Nick Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Pa ganran o deithiau Gweinidogion, Dirprwy Weinidogion a swyddogion Llywodraeth Cynulliad Cymru a wneir a) ar y ffordd; b) ar reilffyrdd; c) mewn awyren a d) ar fws. (WAQ55460)

***Rhoddwyd ateb ar 09 Chwefror 2010***

Ni chedwir unrhyw gofnodion canolog sy'n cwmpasu'r holl deithio a wna Gweinidogion neu swyddogion na'r dull o drafnidiaeth a ddefnyddir. Byddai angen gwneud gwaith sylweddol i gasglu'r wybodaeth, a gellid felly ond ei rhoi ar gost anghymesur.

**Nick Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru)**: Faint o arian y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi'i wario ar letygarwch ym mhob un o'r pum mlynedd diwethaf. (WAQ55461)

***Rhoddwyd ateb ar 16 Mawrth 2010***

Diolch am eich cwestiwn yn gofyn am wybodaeth am wariant Llywodraeth Cynulliad Cymru ar yr eitemau uchod yn ystod y pum mlynedd diwethaf.

Pan gyflwynwyd eich cwestiwn i'w ateb yn y Sesiwn Lawn, ni allwn ymateb oherwydd yr amser mae'n ei gymryd i ddwyn y wybodaeth ynghyd. Erbyn hyn, gallaf roi'r wybodaeth i chi ar gyfer 2008-09 yn unig.

| Adran | Cyfreithiol (£) | Lletygarwch (£) | Dodrefn (£) |
|---|---|---|---|
| Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol | 1,812,366 | 49 | - |
| Cyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol | 999 | 417 | - |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai | 138,980 | 239 | - |
| Materion Gwledig | 81,543 | 880 | - |
| Yr Economi a Thrafnidiaeth | 1,132,049 | 210,844 | 4,783 |
| Plant, Addysg a Dysgu Gydol Oes | 4,560 | 8,786 | - |
| Treftadaeth | 323 | 36,684 | - |
| Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad | -4,349 | 1,461 | 78 |
| Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu | 714,735 | 59,726 | 685,636 |
| **Cyfanswm** | **3,881,206** | **319,086** | **690,497** |

Ni allaf roi gwybodaeth am gostau ymgynghori allanol ar hyn o bryd ond byddaf yn rhoi’r wybodaeth hon i chi cyn gynted ag y bydd ar gael.

Mae’r costau uchod yn cwmpasu'r holl wariant adrannol. Ni roddir ffigurau ar gyfer blynyddoedd ariannol cyn 2008-09 gan nad yw’r wybodaeth honno ar gael ar sail gymharol a byddai ei chasglu yn arwain at gostau anghymesur, fel y nodir yn y canllawiau perthnasol ar Gwestiynau’r Cynulliad.

**Nick Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru)**: A wnaiff y Gweinidog ddarparu manylion am allyriadau carbon Llywodraeth Cynulliad Cymru ym mhob un o'r pum mlynedd diwethaf. (WAQ55462)

***Rhoddwyd ateb ar 09 Chwefror 2010***

Mae'r data isod yn crynhoi'r allyriadau carbon deuocsid o ystad gweinyddol a theithiau busnes staff Llywodraeth y Cynulliad.

| Cyfnod | Allyriadau carbon deuocsid o adeiladau (tunelli) | Allyriadau carbon deuocsid o deithio ar fusnes (tunelli) | Cyfanswm Allyriadau Carbon o adeiladau a theithiau busnes (tunelli) | Newid mewn CO2 (%) |
|---|---|---|---|---|
| 2004-05 | 7,695 | 2,070 | 9,765 | - |
| 2005-06 | 8,890 | 2,102 | 10,992 | 12.5 |
| 2006-07 | 12487 | 3,385 | 15,872 | 44.3* |
| 2007-08 | 12606 | 3,519 | 16,125 | 1.6 |
| 2008-09 | 11919 | 3,569 | 15,488 | -4 |

***** Cynnydd yn sgîl uno pedwar Corff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad (1,559 o staff) gyda Llywodraeth y Cynulliad ar 1 Ebrill 2006.

**Nick Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddarparu’r holl fanylion am gyfanswm yr arbedion effeithlonrwydd a wnaed gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ym mhob un o’r tair blynedd diwethaf ac amlinellu ymhle y mae’r arbedion hynny wedi’u gwneud. (WAQ55463)

***Rhoddwyd ateb dros dro***

***Ni ddarparwyd ateb pellach.***

**Nick Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Faint o arian y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi'i wario ar hysbysebu a) mewn papurau newydd; b) ar-lein; c) ar y teledu; a d) ar y radio ym mhob un o'r pum mlynedd diwethaf. (WAQ55466)

***Rhoddwyd ateb ar 26 Mai 2010***

Ysgrifennaf yn dilyn yr ymateb dros dro i'r Cwestiwn Ysgrifenedig uchod i'r Cynulliad.

Mae'r tabl amgaeedig yn cynnwys manylion ynghylch costau hysbysebu yn y categorïau yr ydych wedi gofyn amdanynt. Dyma'r wybodaeth sydd gan yr Is-adran Cyfathrebu ac efallai nad yw'n rhestr gynhwysfawr o'r holl gostau hysbysebu'r categorïau hyn ar draws Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Nid yw'n hawdd cymharu'r wybodaeth hon o flwyddyn i flwyddyn gan na ddechreuwyd casglu manylion un o'r prif gontractwyr hysbysebu papur newydd ac ar-lein yn y fformat hwn cyn 2008/2009. Byddai costau casglu gwybodaeth o'r fath yn ormodol. Mae'r costau wedi dechrau cynyddu o 2008/09 ymlaen yn sgil dechrau cynnwys gwybodaeth Croeso Cymru.

| Advertising Category | 2004/05 | 2005/06 | 2006/07 | 2007/08 | 2008/09 *1 | 2009/10 (Up until 31 December 2009) *2 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Newspapers | 54,704.00 | 0.00 | 253,244.00 | 159,449.00 | 2,419,623.00 | 1,844,627.00 |
| Online | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 846,466.15 | 421,178.58 |
| Television | 524,502.00 | 547,177.00 | 578,570.00 | 707,487.00 | 2,584,804.00 | 398,745.00 |
| Radio | 141,447.00 | 151,699.00 | 227,671.00 | 388,910.00 | 260,346.00 | 252,891.00 |
| | **720,356.00** | **698,876.00** | **1,059,485.00** | **1,255,846.00** | **6,111,239.15** | **2,917,441.58** |

1. The increase in 2008/09 figures is due to the inclusion of Visit Wales costs.

2. The costs up until 31 December 2009 are made up of billing figures to date and not final expenditure.

3. The information for 2008/09 and 2009/10 does not include costs for ESTYN.

4. These figures include recruitment advertising, transport and planning notices, public appointment advertisements and campaign advertising/

5. The information may not be a complete list of all advertising by the Welsh Assembly Government.

**Nick Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Faint o arian y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi'i wario ar hysbysebion ar fyrddau posteri ym mhob un o'r pum mlynedd diwethaf. (WAQ55467)

***Rhoddwyd ateb ar 09 Chwefror 2010***

Ni chesglir gwybodaeth am wariant ar hysbysebu gan Lywodraeth Cynulliad Cymru mewn ffordd a fyddai'n ein galluogi i nodi'r gwariant ar hysbysebu ar hysbysfyrddau ar wahân. Byddai dadansoddi'r fath wybodaeth yn arwain at gostau anghymesur.

**Nick Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Faint o arian y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi'i wario ar ymgynghorwyr allanol ym mhob un o'r pum mlynedd diwethaf. (WAQ55469)

***Rhoddwyd ateb ar 16 Mawrth 2010***

Diolch am eich cwestiwn yn gofyn am wybodaeth am wariant Llywodraeth Cynulliad Cymru ar yr eitemau uchod yn ystod y pum mlynedd diwethaf.

Pan gyflwynwyd eich cwestiwn i'w ateb yn y Sesiwn Lawn, ni allwn ymateb oherwydd yr amser mae'n ei gymryd i ddwyn y wybodaeth ynghyd. Erbyn hyn, gallaf roi'r wybodaeth i chi ar gyfer 2008-09 yn unig.

| Adran | Cyfreithiol (£) | Lletygarwch (£) | Dodrefn (£) |
|---|---:|---:|---:|
| Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol | 1,812,366 | 49 | - |
| Cyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol | 999 | 417 | - |
| Yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai | 138,980 | 239 | - |
| Materion Gwledig | 81,543 | 880 | - |
| Yr Economi a Thrafnidiaeth | 1,132,049 | 210,844 | 4,783 |
| Plant, Addysg a Dysgu Gydol Oes | 4,560 | 8,786 | - |
| Treftadaeth | 323 | 36,684 | - |
| Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad | -4,349 | 1,461 | 78 |
| Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu | 714,735 | 59,726 | 685,636 |
| **Cyfanswm** | **3,881,206** | **319,086** | **690,497** |

Ni allaf roi gwybodaeth am gostau ymgynghori allanol ar hyn o bryd ond byddaf yn rhoi'r wybodaeth hon i chi cyn gynted ag y bydd ar gael.

Mae'r costau uchod yn cwmpasu'r holl wariant adrannol. Ni roddir ffigurau ar gyfer blynyddoedd ariannol cyn 2008-09 gan nad yw'r wybodaeth honno ar gael ar sail gymharol a byddai ei chasglu yn arwain at gostau anghymesur, fel y nodir yn y canllawiau perthnasol ar Gwestiynau'r Cynulliad.

**Nick Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Faint o arian y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi'i wario ar gyngor cyfreithiol allanol ym mhob un o'r pum mlynedd diwethaf. (WAQ55470)

***Rhoddwyd ateb ar 16 Mawrth 2010***

Diolch am eich cwestiwn yn gofyn am wybodaeth am wariant Llywodraeth Cynulliad Cymru ar yr eitemau uchod yn ystod y pum mlynedd diwethaf.

Pan gyflwynwyd eich cwestiwn i'w ateb yn y Sesiwn Lawn, ni allwn ymateb oherwydd yr amser mae'n ei gymryd i ddwyn y wybodaeth ynghyd. Erbyn hyn, gallaf roi'r wybodaeth i chi ar gyfer 2008-09 yn unig.

| Adran | Cyfreithiol (£) | Lletygarwch (£) | Dodrefn (£) |
|---|---|---|---|
| Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol | 1,812,366 | 49 | - |
| Cyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol | 999 | 417 | - |
| Yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai | 138,980 | 239 | - |
| Materion Gwledig | 81,543 | 880 | - |
| Yr Economi a Thrafnidiaeth | 1,132,049 | 210,844 | 4,783 |
| Plant, Addysg a Dysgu Gydol Oes | 4,560 | 8,786 | - |
| Treftadaeth | 323 | 36,684 | - |
| Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad | -4,349 | 1,461 | 78 |
| Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu | 714,735 | 59,726 | 685,636 |
| **Cyfanswm** | **3,881,206** | **319,086** | **690,497** |

Ni allaf roi gwybodaeth am gostau ymgynghori allanol ar hyn o bryd ond byddaf yn rhoi'r wybodaeth hon i chi cyn gynted ag y bydd ar gael.

Mae'r costau uchod yn cwmpasu'r holl wariant adrannol. Ni roddir ffigurau ar gyfer blynyddoedd ariannol cyn 2008-09 gan nad yw'r wybodaeth honno ar gael ar sail gymharol a byddai ei chasglu yn arwain at gostau anghymesur, fel y nodir yn y canllawiau perthnasol ar Gwestiynau'r Cynulliad.

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau*

**Nick Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddarparu manylion am nifer yr oedolion yng Nghymru a ddynodwyd yn anllythrennog ym mhob un o'r pum mlynedd diwethaf. (WAQ55452)

***Rhoddwyd ateb ar 04 Chwefror 2010***

Nid yw'r niferoedd ar gael ar gyfer oedolion a ddosbarthwyd yn anllythrennog dros y pum mlynedd ddiwethaf fesul blwyddyn.
Cafodd yr Arolwg Cenedlaethol o Sgiliau Sylfaenol Oedolion yng Nghymru, sy'n cwmpasu sgiliau llythrennedd Saesneg ei gynnal diwethaf yn 2004. Yn ôl yr arolwg hwn, roedd amcangyfrif o 25 y cant o oedolion (tua 450,000) â llythrennedd Lefel Mynediad neu is.
Yn ogystal â hynny yn ôl Arolwg o Lefelau Llythrennedd yn y Gymraeg yn 2004, roedd amcangyfrif o 41 y cant o oedolion Cymraeg â llythrennedd Lefel Mynediad neu is yn Gymraeg.
Disgwylir i'r Arolwg Cenedlaethol o Sgiliau Sylfaenol Oedolion yng Nghymru gael ei gynnal eto yn 2010 a bydd yn cwmpasu sgiliau llythrennedd yn Gymraeg a Saesneg.

**Nick Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddarparu manylion am nifer y disgyblion 16 mlwydd oed sy'n gadael ysgol heb ddim cymhwyster ffurfiol ym mhob un o'r pum mlynedd diwethaf. (WAQ55453)

***Rhoddwyd ateb ar 04 Chwefror 2010***

Mae'r tabl isod yn dangos y wybodaeth ddiweddaraf am ddisgyblion a oedd yn 15 oed ar ddechrau'r flwyddyn academaidd a adawodd addysg llawn amser heb unrhyw gymwysterau.

Nifer a chanran y disgyblion 15 oed a adawodd addysg llawn amser heb gymhwyster cydnabyddedig

| | Nifer y disgyblion yn y garfan | Nifer a gofnodwyd fel rhai a fethodd ag ennill cymhwyster cydnabyddedig | Nifer a adawodd addysg lawn amser heb gymhwyster cydnabyddedig | Canran y garfan a adawodd addysg llawn amser heb gymhwyster cydnabyddedig |
|---|---|---|---|---|
| 2004/05 | 38,495 | 1,145 | 833 | 2.2 |
| 2005/06 | 38,859 | 1,397 | 807 | 2.1 |
| 2006/07 | 39,576 | 1,194 | 682 | 1.7 |
| 2007/08 | 39,027 | 1,207 (r) | 608 (r) | 1.6 |
| 2008/09 | 37,607 | 870 | 333 | 0.9 |
| | | | | |
| 2008/09 (bechgyn) | 19,203 | 536 | 192 | 1.0 |
| 2008/09 (merched) | 18,404 | 334 | 141 | 0.8 |

(a) Disgyblion a oedd yn 15 oed ar ddechrau'r flwyddyn academaidd mewn ysgolion a gynhelir, ysgolion arbennig ac ysgolion annibynnol ac Unedau Atgyfeirio Disgyblion.
(r) Diwygiwyd o 1.195 a 604 yn eu tro fel y cyhoeddwyd yn SDR 204/2008 fel ar 2 Rhagfyr 2008:

Am ragor o wybodaeth gweler datganiad ystadegol 201/2009 (Saesneg yn unig) "Disgyblion sy'n Ymadael ag Addysg heb Gymhwyster" yn http://wales.gov.uk/topics/statistics/headlines/schools2009/hdw200912023/?lang=en

**Nick Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddarparu manylion am gost cynllun Llywodraeth Cynulliad Cymru i ddarparu brecwast ysgol am ddim ym mhob un o'r pum mlynedd diwethaf. (WAQ55454)

***Rhoddwyd ateb ar 09 Chwefror 2010***

O'r cychwyn cyntaf, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi ei gwneud yn glir bod cymryd rhan yn y cynllun yn wirfoddol ac y byddwn yn darparu'r arian angenrheidiol i'r ysgolion a'r plant hynny sy'n dymuno gwneud hynny.

Yn seiliedig ar geisiadau a gafwyd gan yr 22 o awdurdodau lleol, mae'r gost o weithredu'r fenter ym mhob un o'r pum mlynedd ddiwethaf fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| 2004-05 | £120,410.00 |
| 2005-06 | £1,414,057.00 |
| 2006-07 | £2,942,261.00 |
| 2007-08 | £7,030,141.00 |
| 2008-09 | £8,327,258.00 |

**Nick Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddarparu manylion am a) nifer y plant; a b) nifer yr ysgolion sy'n rhan o gynllun Llywodraeth Cynulliad Cymru i ddarparu brecwast ysgol am ddim ym mhob un o'r pum mlynedd diwethaf. (WAQ55455)

***Rhoddwyd ateb ar 09 Chwefror 2010***

(a) Ar gyfer y cyfnod rhwng Ebrill 2005 a Hydref 2008, casglwyd data am nifer y plant sy'n cymryd rhan yn y fenter gan awdurdodau fesul tymor. Cyhoeddir y wybodaeth ar y wefan 'Ymuno â Menter Brecwast am ddim Hydref 2008' y gellir ei darllen yn:
http://new.wales.gov.uk/topics/educationandskills/learningproviders/schools/foodanddrink/breakfast/stats/?skip=1&lang=cy

Ers mis Ionawr 2009, casglwyd data am ysgolion a disgyblion sy'n cymryd rhan yn y fenter drwy'r Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD). Cyhoeddir y wybodaeth ar y wefan o dan Bennod 9 - Gwasanaethau Ysgol, Tabl 9.4 a gellir ei darllen yn:
http://wales.gov.uk/topics/statistics/publications/schoolsgen09/?skip=1&lang=cy

(b) Cyn Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion Ionawr 2009, casglwyd gwybodaeth am nifer yr ysgolion a oedd yn cymryd rhan yn y fenter gan awdurdodau lleol fesul tymor. Roedd nifer yr ysgolion a gymerodd ran yn ystod y pum mlynedd ddiwethaf fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| 2004-05 | 67 |
| 2005-06 | 222 |
| 2006-07 | 639 |
| 2007-08 | 828 |
| 2008-09 | 944 |

## *Gofyn i'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth*

**Nick Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y ffaith bod y gwasanaeth trên i deithwyr ar reilffordd Dyffryn Conwy rhwng Gogledd Llanrwst a Blaenau Ffestiniog yn dod i ben ar 18 Ionawr 2010. (WAQ55440)

***Rhoddwyd ateb ar 04 Chwefror 2010***

Bydd Network Rail yn cwblhau gwaith peirianneg a gynlluniwyd rhwng Blaenau Ffestiniog a Gogledd Llanrwst o ddydd Llun 18 i ddydd Gwener 22 Ionawr 2010. Bydd gwasanaethau bws i gymryd lle'r trên rhwng Blaenau Ffestiniog a Gogledd Llanrwst.

**Nick Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A fydd y gwaith peirianyddol a wneir ar reilffordd Dyffryn Conwy rhwng 18 - 30 Ionawr 2010 yn ystyried yr angen i uwchraddio'r rheilffordd i Argaeledd Llwybr 10 er mwyn gwasanaethu'r Cynllun Cludo Agregau Llechi ar Drên. (WAQ55441)

***Rhoddwyd ateb ar 04 Chwefror 2010***

Bydd Network Rail yn cwblhau gwaith peirianneg arferol rhwng Blaenau Ffestiniog a Gogledd Llanrwst o ddydd Llun 18 i ddydd Sul 31 Ionawr 2010. Nid oes unrhyw gynlluniau i uwchraddio lled y rheilffordd i gyrraedd gradd Argaeledd Llwybr 10.

**Brian Gibbons (Aberafan)**: Sawl cais ar gyfer Grant y Gronfa Fuddsoddi Leol sydd wedi'i gyflwyno yn y De ym mhob Ardal Awdurdod Lleol, a sawl cais sydd wedi'i gymeradwyo hyd yn hyn gan bob Ardal Awdurdod Lleol. (WAQ55443)

**Brian Gibbons (Aberafan):** A wnaiff y Gweinidog ddarparu manylion ynghylch a) cyfanswm gwerth y cronfeydd a ddyrannwyd mewn grantiau'r Gronfa Fuddsoddi Leol yn y De fesul ardal Awdurdod Lleol, b) y cyfnod amser dangosol ar gyfer prosesu grantiau'r Gronfa Fuddsoddi Leol yn y De, ac c) y cyfnod amser ar gyfartaledd ar gyfer prosesu grantiau'r Gronfa Fuddsoddi Leol yn y De. (WAQ55444)

***Rhoddwyd ateb ar 09 Chwefror***

Mae'r Gronfa Fuddsoddi Leol gwerth £54m a ariennir gan Ewrop yn gynllun cymorth ariannol ar gyfer busnesau bach a chanolig eu maint (BbaChau), a ddarperir gan awdurdodau lleol ledled y rhanbarth Cydgyfeirio.
Mae'r Gronfa yn cynnwys tri chynllun rhanbarthol sy'n gweithredu yn y rhanbarth Cydgyfeirio: £8m (ERDF £4m) Gogledd Cymru; £19m (ERDF £9m) De-orllewin Cymru; £27m (ERDF £10m) De-ddwyrain Cymru.
Dangosir y wybodaeth y gofynnir amdani yn y tabl canlynol, sy'n seiliedig ar wybodaeth a roddwyd gan awdurdodau lleol.

**Tabl 1: Ceisiadau, cymeradwyaeth a chyllid gan y Gronfa ar lefel awdurdod lleol**

| | **Awdurdod Lleol** | **Nifer y ceisiadau ffurfiol i'r Gronfa** | **Nifer a gymeradwywyd gan y Gronfa** | **Arian a Neilltuwyd (£m)** |
|---|---|---|---|---|
| **De-ddwyrain Cymru** | Blaenau Gwent | 21 | 17 | 0.9 |
| | Pen-y-bont ar Ogwr | 37 | 31 | 1.2 |
| | Caerffili | 61 | 56 | 2.2 |
| | Merthyr Tudful | 14 | 11 | 0.9 |
| | Rhonda Cynon Taf* | 18 | 16 | 2.4 |
| | Tor-faen | 15 | 15 | 1.2 |
| **De-orllewin Cymru** | Sir Gaerfyrddin* | 87 | 83 | 1.7 |
| | Ceredigion | 23 | 23 | 1.0 |
| | Castell-nedd Port Talbot | 24 | 22 | 0.8 |
| | Sir Benfro | 40 | 36 | 1.4 |
| | Abertawe | 38 | 28 | 1.7 |
| | **Cyfanswm De Cymru** | **378** | **338** | **15.4** |

Data o 20 Ionawr 2010
*Prif noddwr prosiect cynllun y Gronfa

Gweinyddir y cynllun gan yr awdurdodau lleol perthnasol ac ni chedwir gwybodaeth am yr amseroedd prosesu dangosol a chyfartalog ar gyfer cymeradwyo arian y Gronfa yn ganolog gan Lywodraeth y Cynulliad.

**Andrew RT Davies (Canol De Cymru):** Sawl tunnell o halen a graean sy'n cael eu cadw ar gyfer tywydd garw yng Nghymru ac a wnaiff y Gweinidog ddarparu ffigurau ar gyfer pob un o'r pum mlynedd diwethaf. (WAQ55446)

***Rhoddwyd ateb ar 09 Chwefror 2010***

Ar ddechrau gaeaf 2009/10 roedd gan naill ai Llywodraeth y Cynulliad neu awdurdodau lleol Cymru gyfanswm o 69,300 o dunelli o halen yng Nghymru. Yn ystod y pedair blynedd flaenorol roedd stociau halen Llywodraeth y Cynulliad ar ddechrau pob gaeaf fel a ganlyn (mewn tunelli):

| | |
|---|---|
| 2008/09 | 9,974 |
| 2007/08 | 13,389 |
| 2006/07 | 11,1337 |
| 2005/06 | 8,824 |

Ni chedwir ffigurau ar gyfer awdurdodau lleol Cymru ar gyfer y blynyddoedd hyn yn ganolog.

**Nick Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddarparu manylion am nifer y prentisiaid yng Nghymru ym mhob un o'r pum mlynedd diwethaf. (WAQ55471) ***Trosglwyddwyd i'w ateb gan y Dirprwy Weinidog dros Wyddoniaeth, Arloesi a Sgiliau***

***Rhoddwyd ateb ar 2 Mawrth 2010***

**Y Dirprwy Weinidog dros Wyddoniaeth, Arloesi a Sgiliau (Lesley Griffiths):**

| **Tueddiadau mewn dysgu seiliedig ar waith: Pren. Fod. Syl., MA ac MSD mewn hyfforddiant 2004/05 I 2008/09 (dros dro) Dysgwyr unigryw ((a) (b)** | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | |
| | | | | | | |
| **Cyfrifiadau blwyddyn gyfan** | | | | | | |
| | | | | | | |
| | **2004/05 (c)** | **2005/06 (c)** | **2006/07 (c)** | **2007/08 (c)** | **2008/09 (c)** | **2008/09 (d)** |
| | | | | | **(Hen sail)** | **(Dros dro)** |
| | | | | | | |
| Prentisiaeth Fodern Sylfaenol | 22,645 | 30,200 | 28,150 | 25,630 | 23,520 | 23,055 |
| Prentisiaeth Fodern | 20,025 | 20,935 | 19,035 | 17,640 | 17,515 | 17,230 |
| Diploma Sgiliau Modern | 2,505 | 2,950 | 2,860 | 2,455 | 2,180 | 2,065 |
| **CYFANSWM** | **45175** | **54085** | **50045** | **45725** | **43215** | **42350** |

Nodiadau
(a) Wedi'i dalgrynnu i'r pum dysgwr agosaf.
(b) Dysgwyr unigryw, gan bennu'r dysgwr i fath o raglen yn unol â'i raglen ddysgu fwyaf diweddar yn y flwyddyn.
(c) Penderfynir ar ddyddiad terfynu i'r dysgwr gan y dyddiad terfynu gweithgaredd dysgu diweddaraf.

## *Gofyn i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai*

**Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed):** A oes gan y Gweinidog unrhyw gynlluniau i roi cynllun sgrapio boeleri ar waith yng Nghymru. (WAQ55442)

***Rhoddwyd ateb ar 09 Chwefror 2010***

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ystyried cyflwyno cynllun gwaredu boeleri yng Nghymru, ac rydym wrthi'n gweithio ar gyfres o gynigion gan ystyried yr effaith ar bobl mewn tlodi tanwydd, yr arbedion carbon cymharol a gwerth am arian. Os cyflwynir cynllun gwaredu boeleri yng Nghymru, mae'n debygol y bydd mwy o bwyslais ar dargedu cartrefi sy'n dlawd o ran tanwydd o dan gynllun Cymru, o gymharu â'r cynllun a gyflwynwyd yn Lloegr gan Lywodraeth y DU. Mae Llywodraeth y Cynulliad yn gobeithio gwneud cyhoeddiad terfynol ar y mater hwn yn y dyfodol agos.

**Nick Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Pa ganran o eiddo preswyl a busnes yr ystyriwyd eu bod mewn perygl o lifogydd ym mhob un o'r pum mlynedd diwethaf. (WAQ55456)

***Rhoddwyd ateb ar 09 Chwefror 2010***

Yng Nghymru, mae tua 357,000 o eiddo, neu tua 17% o'r holl eiddo preswyl a busnes, mewn perygl o lifogydd. Mae tua 220,000 o eiddo mewn perygl o lifogydd oherwydd afonydd neu'r môr, gyda 97,000 o'r rhain hefyd mewn perygl o lifogydd dŵr wyneb. Mae 137,000 o adeiladau eraill yn agored i lifogydd o ddŵr wyneb yn unig.

Nid yw asesiad cenedlaethol o ganran yr eiddo sydd mewn perygl o lifogydd yn amrywio'n sylweddol o un flwyddyn i'r llall, a hynny dan ddŵr na ellir llwyr ddileu'r risg i eiddo a leolir mewn ardal sydd mewn perygl o lifogydd, ac felly o ran yr asesiad cenedlaethol mae o hyd yn risg.

Gellir lleihau pa mor aml y bydd eiddo yn mynd dan ddŵr drwy adeiladu neu wella amddiffynfeydd, fodd bynnag bydd y risg o lifogydd bob amser yno o ganlyniad i lifogydd sy'n uwch na'r amddiffynfeydd cyfredol.

Mae Asiantaeth yr Amgylchedd yn asesu bod y perygl o lifogydd, dros y pum mlynedd ddiwethaf (2004/05 - 2008/09), wedi lleihau mewn cyfartaledd o tua 750 o eiddo bob blwyddyn o ganlyniad i amddiffynfeydd newydd rhag llifogydd.

**Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed):** Pa gamau y mae'r Gweinidog yn eu cymryd i sicrhau bod awdurdodau lleol yn gweithredu'r canllawiau statudol a gyhoeddir gan ei hadran. (WAQ55464)

***Rhoddwyd ateb ar 10 Mawrth 2010***

Mae fy Adran yn defnyddio mesurau amrywiol i sicrhau bod awdurdodau lleol yn gweithredu'r canllawiau statudol a gyhoeddir gan yr Adran. Ymhlith yr enghreifftiau mae:

**Cynllunio**

Fel arfer caiff canllawiau eu paratoi a hyfforddiant ei drefnu fel bod y sawl y disgwylir iddynt eu cyflawni yn gwybod ac yn deall yr hyn a ddisgwylir ganddynt.
Caiff gofynion statudol presennol a'r broses o'u gweithredu eu hadolygu'n achlysurol. Gellir hefyd cael adborth defnyddio ar weithrediad o adroddiadau'r Ombwdsmon a Swyddfa Archwilio Cymru.
Mae mesurau eraill yn cynnwys:
Cyfarfodydd swyddogion ag Awdurdodau Cynllunio Lleol, ymateb i adborth gan ddefnyddwyr gwasanaethau cynllunio, ymweliadau Gweinidogol, arfer pwerau i ymyrryd yn y broses gynllunio a monitro Cynlluniau Datblygu Lleol a'r gwasanaeth Rheoli Datblygu.

**Llifogydd**

Anfonwyd canllawiau i bob awdurdod lleol ar y gofynion statudol sy'n gysylltiedig â gwneud gwaith amddiffyn rhag llifogydd ac amddiffyn yr arfordir. Caiff pob cynllun draenio tir, amddiffyn rhag llifogydd ac amddiffyn yr arfordir a gyflwynir i Lywodraeth Cynulliad Cymru i'w gymeradwyo ei wirio i

sicrhau cydymffurfiaeth â'r gweithdrefnau statudol cyn y rhoddir cymeradwyaeth gan Lywodraeth y Cynulliad.

**Hawliau Tramwy**

Mae Rhaglen Gwella Mynediad Arfordirol Llywodraeth y Cynulliad wedi helpu i sicrhau y cyflawnir y ddyletswydd a roddir ar awdurdodau lleol i ystyried anghenion y sawl sydd â phroblemau symudedd wrth osod strwythurau newydd ar lwybrau troed a llwybrau ceffylau.

**Atal llygredd**

Rhoddir canllawiau i awdurdodau lleol ar Drwyddedu Amgylcheddol (Atal a Rheoli Llygredd Integredig gan Awdurdodau Lleol (LA-IPPC) a Rheoli Llygredd Aer Lleol (LAPC)). Mae'r ystadegau a gesglir yn flynyddol ar weithgarwch awdurdodau lleol yn dangos effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd rheoleiddio gan awdurdodau lleol. Mae fy swyddogion yn defnyddio'r ystadegau i nodi materion ac yn gweithio gyda holl awdurdodau lleol Cymru drwy'r flwyddyn, yn cynnwys cyfarfodydd wyneb yn wyneb, i ddatrys unrhyw broblemau a sicrhau bod ganddynt y wybodaeth a'r canllawiau diweddaraf i'w cynorthwyo i gyflawni eu dyletswyddau.

**Sbwriel**

Mae'r Cod Ymarfer ar Sbwriel a Gwastraff (COPLAR) yn darparu canllawiau i awdurdodau lleol mewn perthynas â'u dyletswyddau i gadw tir penodol yn glir o sbwriel a gwastraff. Caiff glendid strydoedd yng Nghymru ei fonitro drwy System Archwilio a Rheoli'r Amgylchedd Lleol (LEAMS). Mae COPLAR yn nodi safonau ar gyfer sbwriel a gwastraff, ac mae LEAMS yn defnyddio'r safonau hyn i fesur glendid strydoedd. Felly mae'n ddull rheoli a meincnodi perfformiad gwerthfawr, ac mae'r data a gesglir drwy LEAMS yn cyfrannu at y Dangosydd Perfformiad ar gyfer Gwasanaethau Stryd.

**Digartrefedd**

Cyhoeddwyd y Cod Canllawiau i Awdurdodau Lleol ar Ddyrannu Llety a Digartrefedd ym mis Ebrill 2003.

Rydym yn cefnogi'r broses o weithredu'r cod mewn nifer o ffyrdd, yn cynnwys arian i gefnogi Rhwydwaith Digartrefedd yr Awdurdodau Lleol sy'n darparu gwasanaeth rhannu gwybodaeth a chynghori; rydym wedi ariannu ystod o ganllawiau arfer da ar weithredu'r gyfraith a'r canllawiau; cefnogi'r gwaith o ddatblygu pecyn cymorth hunanasesu Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru sy'n ymdrin â'r maes hwn; ariannu gwaith ymchwil i gymhwyso'r Canllawiau mewn perthynas ag ymfudo; a darparu cyngor ar gais i awdurdodau lleol ar weithredu'r Canllawiau.

**Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am sut y mae awdurdodau lleol yn gweithredu'r canllawiau statudol dan adrannau 147 ac 147ZA Deddf Priffyrdd 1980. (WAQ55468)

***Rhoddwyd ateb ar 10 Mawrth 2010***

Ym mis Mawrth 2007 cyhoeddodd Llywodraeth Cynulliad Cymru ganllawiau statudol i awdurdodau lleol ar ofynion Adrannau 147 a 147ZA o Ddeddf Priffyrdd 1980 ("Deddf 1980") er mwyn i awdurdodau priffyrdd lleol ystyried anghenion y sawl sydd â phroblemau symudedd wrth osod strwythurau newydd ar lwybrau troed a llwybrau ceffylau.

Drwy weithredu prosiectau o dan Gynlluniau Gwella Hawliau Tramwy ac o dan Raglen Gwella Mynediad Arfordirol Llywodraeth Cynulliad Cymru, gellir gweld enghreifftiau ymarferol o roi'r canllawiau ar waith. Un prosiect o'r fath yw'r llwybr cerdded a seiclo newydd a adeiladwyd rhwng y

Drenewydd, Llanllwchaearn ac Aberbechan. Mae'r llwybr wedi'i gynllunio'n benodol i gynorthwyo defnyddwyr cadeiriau olwyn a theuluoedd gyda chadeiriau gwthio i symud yn ddiogel ac yn rhwydd rhwng y cymunedau lleol hyn.

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol*

**Nick Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddarparu manylion am gyfanswm nifer y cleifion GIG a gafodd eu trin yn y sector preifat ym mhob un o'r pum mlynedd diwethaf. (WAQ55450)

***Rhoddwyd ateb ar 09 Chwefror 2010***

Rwyf yn gyfrifol am breswylwyr GIG Cymru yn unig. Ceir gwybodaeth am gleifion GIG Cymru a drinnir yn y sector preifat gan Atebion Iechyd Cymru.

**Nick Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddarparu manylion am gyfanswm yr arian a dalwyd gan GIG Cymru i sefydliadau a busnesau yn y sector preifat ym mhob un o'r pum mlynedd diwethaf. (WAQ55451)

***Rhoddwyd ateb ar 09 Chwefror 2010***

Nid yw'r wybodaeth hon ar gael yn ganolog.

**Andrew RT Davies (Canol De Cymru)**: Pa gynlluniau sydd gan Fyrddau Iechyd Lleol ar gyfer tywydd gaeafol o ran delio ag eira trwm a rhew ar feysydd parcio a llwybrau cerdded cyhoeddus ar ystad y GIG. (WAQ55457)

**Andrew RT Davies (Canol De Cymru):** Faint sy'n cael ei wario ar hyn o bryd ar offer i glirio a graeanu meysydd parcio a llwybrau cerdded cyhoeddus ar ystad y GIG. (WAQ55458)

***Rhoddwyd ateb ar 04 Chwefror 2010***

Mae hwn yn fater gweithredol i'r Byrddau Iechyd Lleol (BILlau). Y BILl yw'r corff statudol perthnasol sy'n gyfrifol am fynediad ym mhob un o'i safleoedd a diogelwch y cyhoedd yno.

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Dreftadaeth*

**Nick Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Faint o arian y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi'i wario ar hysbysebu a) yn ddomestig; a b) yn rhyngwladol drwy Croeso Cymru ers iddo gael ei sefydlu. (WAQ55449)

***Rhoddwyd ateb ar 09 Chwefror 2010***

Mae cyllideb farchnata Croeso Cymru yn cynnwys gwario ar gymysgedd o hysbysebu, ymatebion uniongyrchol, e-farchnata, cysylltiadau â'r cyfryngau a digwyddiadau'r farchnad deithio, gartref ac yn rhyngwladol. Y cyfanswm a wariwyd ar farchnata ers sefydlu Croeso Cymru yw:

a) Gartref - £25.3 miliwn
b) Rhyngwladol - £8.7 miliwn

Mae'r ffigurau yn cwmpasu'r cyfnod 2006-07 i 2008-09.

## *Gofyn i gynrychiolydd Comisiwn y Cynulliad*

**Nick Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Beth yw cyfanswm cost y gwaith cynnal a chadw ac atgyweirio i adeilad y Senedd ers iddo agor. (WAQ55465)

***Rhoddwyd ateb ar 26 Ionawr 2010***

**Lorraine Barrett AC, Comisiynydd y Cynulliad dros y Cynulliad Cynaliadwy:** Cyfanswm cost cynnal a chadw ac atgyweirio'r Senedd ers ei agor yn 2006 yw £1,064,845. Mae dadansoddiad o gostau blynyddol cynnal a chadw ac atgyweirio arfaethedig fesul categori ynghlwm. Cafodd rhywfaint o'r gwariant a restrir yn yr atodiad ei gynnwys o'r blaen mewn ymateb i'ch cwestiynau ysgrifenedig ym mis Tachwedd 2008 (WAQ52783 a WAQ52784), felly mae'r amgaeëdig yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf o fis Tachwedd 2008 hyd at y presennol.
Gwnaed gwaith atgyweirio arall gan Taylor Woodrow ar eu cost hwy fel rhan o'r contract adeiladu a'r cyfnod atebolrwydd diffygion. Nid yw'r wybodaeth gennym am gost y gwaith atgyweirio hwn.

**<u>Costau'n gysylltiedig ag Adeilad y Senedd</u>**

| **Atgyweirio'r Senedd** | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Categori** | **Blwyddyn ariannol 2006-07** | **Blwyddyn ariannol 2007-08** | **Blwyddyn ariannol 2008-09** | **Blwyddyn ariannol 2009-10 (hyd yn hyn)** | **Cyfanswm y Gwariant** |
| Deunydd yr Adeilad | £.0.00 | £0.00 | £3,248.62 | £7,645.44 | £10,894.06 |
| Arlwyo | £0.00 | £1,394.10 | £0.00 | £0.00 | £1.394.10 |
| Atgyweirio Camerâu | £287.58 | £2,869.37 | £3,699.17 | £17.55 | £6,873.67 |
| Drysau | £5,536.06 | £8,454.18 | £1,589.54 | £4,129.49 | £19,709.27 |
| Trydanol | £4,088.61 | £9,731.33 | £6,140.40 | £3,965.14 | £23,925.48 |
| Dodrefn a Ffitiadau | £389.31 | £2,424.36 | £659.46 | £586.35 | £4,059.48 |
| Lloriau | £5,381.93 | £1,211.29 | £340.99 | £72.45 | £7,006.66 |
| Iechyd a Diogelwch | £0.00 | £0.00 | £824.56 | £0.00 | £824.56 |
| Systemau Gwresogi | £2,723.42 | £104.23 | £1,909.35 | £0.00 | £4,737.00 |
| Lifftiau | £26.59 | £309.79 | £0.00 | £0.00 | £336.38 |
| Goleuadau | £764.70 | £4,410.13 | £2,112.20 | £61.42 | £7,348.45 |
| Eraill | £1,389.44 | £394.21 | £1,077.56 | £855.21 | £3,716.42 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Plymio | £8,380.07 | £8,101.23 | £575.17 | £453.68 | £17,510.15 |
| Toiledau | £165.34 | £1,898.55 | £0.00 | £0.00 | £2,063.89 |
| Ffenestri | £2,225.81 | £10,943.52 | £977.67 | £1,957.91 | £16,104.91 |
| **Cyfanswm y Gost** | **£31,358.86** | **£52,246.29** | **£23,154.69** | **£19,744.64** | **£126,504.48** |

| **Cynnal a Chadw'r Senedd** | **2006/07** | **2007/08** | **2008/09** | **2009/10** | **Cyfanswm** |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cost** | £200,588 | £276,063 | £235,845 | £225,845 | **£938,341** |